



ARCHDIOCESE
of CARDIFF
ARCHESGOBAETH
CAERDYDD



BISHOP HEDLEY
Catholic High



ADRODDIAD YMGYNGHORI

1.0 PWRPAS YR ADRODDIAD YMGYNGHORI

Paratowyd yr adroddiad hwn yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru, dogfen statudol 011/2018. Ei bwrpas yw adrodd ynghylch canlyniad yr Ymgynghoriad Cyhoeddus a drafodai'r Cynnig i greu un Ysgol Gatholig 3-16 ym Merthyr Tudful. Cynhaliwyd yr Ymgynghoriad o ddydd Llun, 29 Ebrill i ddydd Sul, 30 Mehefin 2019 a holwyd yr holl randdeiliaid a'r partion a chanddynt fuddiant, ac fe'u rhestrir isod.

2.0 Y CYNNIG

Y Cynnig yr ymgynghorwyd arno yw darparu addysg Gatholig i blant 3-16 oed ym Merthyr Tudful trwy greu un ysgol gyfan gynhwysfawr ar eu cyfer. Yn sgil hynny, byddai YGG Sant Aloysius, y Ffederasiwn o YGG Sant Illtyd ag YGG y Santes Fair, ac YUG yr Esgob Hedley, yn cael eu diddymu, a byddai'r drefn newydd yn dod i rym o 1 Medi 2019.

Mae manylion y Cynnig, a'r rhesymeg y tu ôl iddo, wedi'u hamlinellu'n llawn yn y Ddogfen Ymgynghori ac fe'i gwelir yn Atodiad 1.

3.0 PWY WNAETHON NI YMGYNGHORI Â NHW?

Anfonwyd copi o'r Ddogfen Ymgynghori a oedd yn amlinellu ac yn egluro ein Cynnig yn llawn, at y rhanddeiliaid canlynol:

- Rhieni, gofawyr, gwarcheidwaid, aelodau staff a llywodraethwyr yr holl ysgolion yr effeithir arnynt
- Aelodau a Chynghorwyr Cabinet Merthyr Tudful
- Undebau Llafur
- Cyfarwyddwyr Addysg yr Awdurdodau Lleol cyfagos (Blaenau Gwent, Pen-y-bont ar Ogwr, Rhondda Cynon Taf, Powys, Caerffili a Bro Morgannwg)
- Estyn
- Aelod Seneddol
- Aelod Cynulliad
- Ysgrifennydd Addysg y Cabinet
- Llywodraeth Cymru
- Y Coleg, Merthyr Tudful
- Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De
- Comisiynydd Heddlu a Throseddau Lleol
- Comisiynydd y Gymraeg
- Rhieni dros Addysg Gymraeg (RHAG)

- Partneriaid Cymunedau yn Gyntaf
- Cabinet Ieuenctid
- Adran Drafnidiaeth CBSMT
- Archesgobaeth Caerdydd, y Comisiynydd Ysgol a Cholegau
- Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

Anfonwyd llythrau at yr holl ysgolion Catholig yr effeithiwyd arnynt, i'w hysbysu o'r Ymgynghoriad. At hynny, gwahoddwyd Rhieni/Gofalwyr, Llywodraethwyr a Staff i fynychu sesiynau galw-heibio lle byddent yn cael cyfle i ofyn cwestiynau a dysgu mwy am y Cynnig. Cynhaliwyd y sesiynau galw-heibio fel a ganlyn:

Dyddiad	Amser	Man Cyfarfod
Dydd Llun, 18 Mawrth 2019	5.30pm – 7.30pm	Ysgol Gynradd Gatholig Sant Illtyd, Heol Greigiog, Dowlais, Merthyr Tudful, CF48 3BT
Dydd Mawrth, 19 Mawrth 2019	10.30am – 12.30pm	Eglwys Sant Aloysius, Ffordd Castan, Gurnos, Merthyr Tudful, CF47 9SB
Dydd Mawrth, 19 Mawrth 2019	6.00pm – 8.00pm	Ysgol Uwchradd Gatholig yr Esgob Hedley, Heol Gwaunfarren, Penydarren, Merthyr Tudful, CF47 9AN
Dydd Iau, 21 Mawrth 2019	5.00pm – 7.00pm	Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair, Heol Caedraw, Merthyr Tudful, CF47 8HA
Dydd Llun, 25 Mawrth 2019	4.00pm – 5.00pm	Ysgol Gynradd Joseff Sant, Ashvale, Tredegar, Blaenau Gwent, NP22 4AQ
Dydd Llun, 25 Mawrth 2019	5.30pm – 6.30pm	Yr Holl Saint a'r Santes Fair (Brynmaur) (cyd-gyfarfod), Ysgol Gynradd yr Holl Saint, Heol yr Ysgol, Glyn Ebwy, NP23 6QP
Dydd Iau, 28 Mawrth 2019	2.30pm – 3.30pm	Ysgol Gynradd y Santes Fererid, Tŷ Fry, Aberdâr, CF44 7PP
Dydd Llun, 3 Mehefin 2019	3.00pm – 5.00pm	Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair, Heol Caedraw, Merthyr Tudful, CF47 8HA
Dydd Mawrth, 4 Mehefin 2019	3.00pm – 5.00pm	Ysgol Gynradd Gatholig Sant Aloysius, Ffordd Cedrwydd, Ystad Gurnos, Merthyr Tudful, CF47 9PA
Dydd Mercher, 5 Mehefin 2019	3.00pm – 5.00pm	Ysgol Uwchradd Gatholig yr Esgob Hedley, Heol Gwaunfarren, Penydarren, Merthyr Tudful, CF47 9AN
Dydd Iau, 6 Mehefin 2019	3.00pm – 5.00pm	Ysgol Gynradd Gatholig Sant Illtyd, Heol Greigiog, Dowlais, Merthyr Tudful, CF48 3BT

4.0 Y BROSES YMGYNGHORI

Anfonwyd copïau electronig o'r Ddogfen Ymgynghori at yr holl randdeiliaid a restrir yn 3.0.

Cyfeiriwyd yr holl bartïon eraill a chanddynt fuddiant (Rhieni/Gofalwyr, Llywodraethwyr, Staff Ysgolion a'r cyhoedd ehangach) at yr Holiadur Ar-lein lle'r oedd y Ddogfen Ymgynghori ar gael a lle gallent gwblhau Arolwg Ar-lein.

Cyhoeddwyd datganiad i'r wasg ynghylch yr Ymgynghoriad ar ein gwefan a'i hysbysebu ar ein sianeli Cyfryngau Cymdeithasol.

Roedd holiaduron papur ar gael yn sesiynau galw-heibio'r Ymgynghoriad a gellid gofyn i'n Tîm Cyfathrebu Corfforaethol amdanynt hefyd.

5.0 CRYNODEB O'R YMATEBION I'R YMGYNGHORIAD

Mae'r ymatebion a ddaeth i law drwy'r Arolwg Ar-lein a'r Cyfarfodydd Ymgynghori wedi'u dadansoddi i ganfod y safbwyntiau a'r pryderon, ac mae crynodeb ohonynt i'w weld isod.

Dyma rai o'r ymatebion cadarnhaol a gafwyd yn sgil yr Ymgynghoriad:

- "Bydd yn darparu cyfleusterau o'r radd flaenaf i blant y Fwrdeistref."
- "Bydd y Cynnig yn diogelu darpariaeth hirdymor yr ysgolion ffydd ym Merthyr Tudful. Mae'r ad-drefnu 3-16 yn fwy cydnaws â'r cwricwlwm newydd arfaethedig na'r model cynradd/uwchradd traddodiadol."
- "Mae'r syniad y bydd ein plant yn cael ysgol sy'n ateb gofynion y cwricwlwm newydd yn gyffrous. Y ffordd orau ymlaen o ran darparu addysg Gatholig i holl blant y dyfodol."
- "Rwy'n credu y bydd hyn yn helpu plant yn y tymor hir – ni fydd raid iddyn nhw ofni symud ysgolion a bydd ganddyn nhw ffrindiau rheolaidd drwyddi draw. Rwy'n credu y bydd hyn yn rhoi gwell cyfle i'r staff ddeall eu myfyrwyr a darparu'r gefnogaeth gywir ar eu cyfer. Bydd yr athrawon yn ymdrin ag unigolion mewn modd mwy ymarferol, yn meithrin profiad addysgu gwell â'r plant, ac yn cael cyfle i ddatblygu'u hunain gyda grwpiau oedran eraill sydd efallai ddim ar gael iddyn nhw ar hyn o bryd. Rwy'n teimlo y bydd y Cynnig hwn yn darparu amgylchedd addysgu gwell i staff a disgyblion ac yn rhoi tawelwch meddwl i rieni y gall eu plentyn setlo yn yr ysgol. Rwy'i hefyd yn credu y gallai roi cyfle i'r disgyblion hyn ddysgu sgiliau hyfforddi cyn gadael trwy wirfoddoli yn y dosbarthiadau iau neu'r clybiau ieuenctid ac ati. Bydd y sgiliau hyn bob amser yn ddefnyddiol mewn bywyd. Rwy'n credu ei fod yn syniad rhagorol ac rwy'n difaru nad oedd rhywbeth fel hyn ar gael yn ystod fy nyddiau ysgol i."
- "Byddai creu uwch-ysgol yn llawer mwy buddiol gan y byddai'n ymgorffori pob ysgol mewn un ysgol Gatholig unedig ac yn rhoi cyfleoedd i athrawon rannu'u harferion gorau - fel arfer, ni fyddent mewn cysylltiad â'i gilydd. Bydd yr athrawon a'r myfyrwyr yn elwa ar gyfuniad amrywiol o brofiadau. Rwy'n cefnogi hyn yn llwyr ac yn gobeithio y bydd yr ymgynghoriad yn arwain at lwyddiant."

- “Bydd yn golygu cysondeb o ran dysg - ar ôl ei sefydlu, bydd yn arbed arian y gellir ei wario ar brosiectau a chyfleusterau eraill. Bydd pobl ifanc yn pontio’n well i’r ysgol uwchradd – byddan nhw’n gwybod beth i’w ddisgwyl a byddai hynny’n llai brawychus. Rwy’n hoffi’r syniad o bennaeth ffederasiwn - bydd yn golygu bod pob disgybl sy’n mynd i Flwyddyn 7 yn dilyn yr un broses ddysgu ac nad oes yr un ohonynt dan anfantais.”
- “Rwy’n cytuno y bydd ysgol 3-16 yn fuddiol i’r disgyblion o ran eu haddysg. Bydd y cyfleusterau newydd yn galluogi athrawon i addysgu’n fwy effeithiol a bydd yn haws ennyn diddordeb y disgyblion mewn ystafelloedd dosbarth mwy o ran maint a golau.”
- “Dyma’r ffordd fwyaf cynaliadwy o barhau i ddarparu addysg Gatholig yn yr ardal. Mae nifer y disgyblion Catholig brodorol yn gostwng ond ceir cefnogaeth gan fintai ryngwladol a dylid eu hannog i ddewis addysg Gatholig yma. Bydd y datblygiad yn cynnig cyfleusterau a chwricwlwm gwell ac yn sicrhau bod ein plant yn cael yr un cyfleoedd â’r rhai mewn trefi a dinasoedd mwy o faint, sydd fel rheol â chyllid uwch i wella potensial bywydau.”
- “Nid wy’n gweld y bydd y plant ar eu colled: bydd cyllid yn cael ei gyfuno i un ysgol yn hytrach na phedair; bydd y dosbarthiadau’n cael eu cyfyngu o ran maint er mwyn osgoi gorlenwi; bydd y plant yn cael dilyniant o ran gwersi a gweithgareddau; bydd y plant yn gwneud ffrindiau a fydd yn aros gyda’i gilydd am gyfnod hirach; a bydd yr awyrgylch yn un cadarnhaol. Mae’r cyfleusterau yn debyg o fod yn well hefyd, sy’n dda o beth am nad yw’r plant bob amser yn cael y gorau o bopeth yn yr ysgolion presennol.”
- Mae’n gyfle da i ddisgyblion, a chael ysgol fodern gyda chyfleusterau gwych yw’r ffordd ymlaen. Bydd y disgyblion a’r gymuned ehangach ar eu hennill o gael y cyfleusterau diweddaraf.
- Bydd yr ysgol newydd yn sicrhau dyfodol addysg Gatholig ym Merthyr Tudful, a hi fydd yr ysgol Gatholig fwyaf blaenllaw ym Mlaenau’r Cymoedd. Felly, mae’n diogelu’r ysgol yn y tymor hir.
- Byddai’r disgyblion yn gallu pontio’n haws drwy’r ysgol - yn academiaidd ac yn gymdeithasol. Bydd “addysgu trwy’r cyfan” yn helpu ein disgyblion yn sylweddol â’u haddysg. Yn ogystal, bydd cyfle i gynllunio ar gyfer addysg o’r Cyfnod Sylfaen hyd at CA4.
- Gellir datrys y problemau sy’n wynebu’r ysgolion presennol fel y parcio a’r tagfeydd, y diffyg caeau chwarae a gweithgareddau allgyrsiol, a’r cyfleusterau sydd wedi dyddio.
- Bydd yn gwella’r cyfleusterau a’r adnoddau sydd ar gael i ysgolion cynradd ac yn caniatáu i staff weithio ar y cyd i ysgrifennu a sefydlu cynlluniau gwaith effeithiol. Gellir crynhoi’r pryderon a godwyd yn yr adborth yn fras i sawl maes allweddol:
- Y prif bryder i nifer helaeth o’r ymatebwyr yw’r modd y bydd yr ysgol newydd yn gweithio, gan gyfeirio’n benodol at y cynllun. Mae rhai ymatebwyr ychydig yn ansicr ynghylch plant tair oed yn rhannu ysgol â phobl ifanc 16 oed. Mae rhai ymatebwyr yn cymeradwyo’r syniad os nad yw’r dosbarthiadau cynradd ac uwchradd yn yr un ardal.
- Cododd rhai ymatebwyr bryderon ynghylch y lleoliad a’r effaith negyddol y gallai ei gael ar draffig yr ardal. Mynegwyd pryderon hefyd y gallai’r safleoedd arfaethedig beri risg o ran iechyd oherwydd eu defnydd blaenorol.

- Mae rhai ymatebwyr yn ofni y gallai nifer y disgyblion ostwng os caiff yr ysgol newydd ei hadeiladu ar safle nad yw mor hawdd i'w chyrraedd â'r ysgolion presennol. Mae'r ysgolion presennol o fewn pellter cerdded i nifer fawr o ddisgyblion a'r pryder yw na fydd y disgyblion hynny'n gallu cyrraedd yr ysgol newydd mor hawdd.
- Un o'r prif bryderon yw diogelwch y plant, yn enwedig o ran y problemau traffig a allai ddod yn sgil yr ysgol newydd. Dyfalir sut y gellir rheoli hyn gyda chynifer o ddisgyblion yn mynychu'r un ysgol.
- Tynnodd rai ymatebwyr sylw at y ffordd y mae anghenion plant ysgolion cynradd yn dra gwahanol i anghenion y rhai uwchradd gan ddyfalu sut y caiff hyn ei reoli.
- Codwyd pryder o blith staff yr ysgolion presennol ynghylch eu swyddi pe bai'r ysgolion yn cael eu huno.
- Mae ymatebwyr yn hoffi'r syniad o ysgol newydd sbon ond yn ansicr sut y gall un Pennaeth reoli hyn yn effeithiol gan fod arweinyddiaeth a rheolaeth yn allweddol, ac oni bai bod Pennaeth eithriadol yn cael ei benodi, gallai'r ysgol fethu. Maent yn pryderu na fydd safonau'n cael eu cynnal.
- Mae pryder na fydd yr addysg Gatholig ym Merthyr Tudful yn ffynnu os na chaiff yr ysgol ei hadeiladu yng nghalon y gymuned. Maent hefyd yn gofyn a all yr ysgol newydd gadw'r cysylltiadau cryf sy'n bodoli ar hyn o bryd rhwng yr eglwys, yr ysgolion a'r gymuned, ac a oes perygl y gellir colli naws y gymuned a geir yn yr ysgolion llai gyda'u dosbarthiadau llai a thrwy hynny effeithio ar addysg a lles emosiynol y disgyblion.
- Codwyd cwestiynau ynghylch sut y gallai'r Cynnig hwn effeithio ar y "bartneriaeth" ag ysgolion cynradd eraill y tu allan i'r Fwrdeistref Sirol.
- Mynegwyd pryderon fod "uwch-ysgolion" mewn awdurdodau lleol eraill wedi methu ac wedi dirywio o ran eu safonau.

Yn y sesiynau galw-heibio a gynhaliwyd mewn ysgolion, lleisiwyd y rhan fwyaf o'r pryderon uchod gan fynychwyr ac i ddilyn, nodwyd ymatebion y swyddogion oedd yn bresennol.

- Pam penodi Pennaeth newydd? - Mewn awdurdodau lleol eraill lle mae ysgolion 3-16 wedi'u creu, nid yw'r dull wedi gweithio am nad oedd ganddynt strwythur cyffredinol ar waith yn y dechrau. Byddai'n fuddiol petai Pennaeth yr ysgol 3-16 newydd yn cael lleisio barn ynghylch y dyluniad neu fod yn rhan o'r penderfyniadau allweddol. Gall y Pennaeth newydd lunio a chynnig strwythurau arwain, rheoli a staffio'r ysgol newydd ar y cyd â'r Corff Llywodraethol newydd.
- Pryderon ynghylch colli swyddi - Pan fydd yr ysgol 3-16 yn cael ei hadeiladu, bydd y Corff Llywodraethol newydd yn pennu'r strwythur staffio a bydd yr ALI a'r Archesgobaeth yn cefnogi'r ysgol i sicrhau bod y strwythur staffio yn briodol. Byddir yn argymhell bod swyddi staff yn cael eu clustnodi a bod swyddi'n cael eu cynnig i staff presennol yr ysgol yn y lle cyntaf.
- Lleoliad y safle - Cyn unrhyw adeiladu, caiff astudiaethau dichonoldeb priodol eu cynnal mewn perthynas â rheoli traffig a sicrhau addasrwydd pob safle ar gyfer adeilad ysgol.

- Pryderon ynghylch disgyblion cynradd ac uwchradd yn cymysgu - Yn yr ysgol newydd, bydd ardaloedd ar wahân ar gyfer y gwahanol gyfnodau allweddol. Bydd gan ddisgyblion cynradd ac uwchradd eu hiardiau'u hunain a mynedfeydd ar wahân. Bydd y trefniadau cinio hefyd yn gwahanu'r disgyblion o ran amser a lle. Y fantais o gael ysgol pob-oed yw bod pob disgybl yn cael cyfle i gyrchu cyfleusterau ac adnoddau arbenigol, e.e. gwyddoniaeth a thechnoleg, a gall y disgyblion uwchradd gael cyfle i ddysgu yn y cyfnod cynradd, yn enwedig mewn perthynas â gweithgareddau gofal a gofynion Bagloriaeth Cymru.
- Maint dosbarthiadau - Bydd maint dosbarthiadau'r ysgol newydd yn debyg i'r hyn sy'n bodoli'n awr ac yn cydymffurfio â chanllawiau Llywodraeth Cymru.
- Pryderon diogelwch - Bydd yr ysgol newydd wedi'i dylunio i gyflawni'r holl ganllawiau cyfredol o ran iechyd a diogelwch. Bydd hyn yn cynnwys trefniadau ar gyfer parcio a mannau gollwng. Bydd ystyriaeth enfawr yn cael ei rhoi i ddiogelu pob dysgwr yn yr adeilad newydd.
- Colli'r ymdeimlad o gymuned - Bydd gan yr ysgolion cynradd yr un staff a bydd yr elfen anogaeth bob amser yn rhan o ysgol gynradd. Byddai'r un ethos yn dal i fodoli mewn ysgol fwy, gyda'r staff a'r disgyblion yn parhau â pherthynas agos.
- Ysgolion Cynradd Partner - Bydd yr Archesgobaeth yn sicrhau ei bod yn gweithio gyda'r holl ysgolion partner a fydd yn bwydo'r fenter newydd. Bydd y Corff Llywodraethol a'r Pennaeth newydd yn sicrhau bod trefniadau trosglwyddo ar waith i gefnogi disgyblion sy'n ymuno â'r ysgol o ysgolion cynradd y tu allan i'r Bwrdeistref Sirol, fel nad yw disgyblion sy'n trosglwyddo ym Mlwyddyn 7 dan anfantais.
- Cynnal safonau - Bwriad y Cynnig yw cryfhau'r system addysg Gatholig trwy sefydlu ysgol pob-oed, a bydd y Corff Llywodraethol newydd yn parhau i fonitro safonau ac yn sicrhau eu bod yn parhau i wella.

Gwnaethom groesawu unrhyw awgrymiadau neu syniadau amgen i'r Cynnig. Dyma grynhoi rhai ohonynt:

- A ellid adeiladu'r ysgol newydd ar safle presennol Ysgol Uwchradd yr Esgob Hedley? Nid yn unig y bydd hynny'n creu gwahaniad naturiol rhwng y blynyddoedd cynradd ac uwchradd, ond byddai addysg Gatholig yn parhau ar yr un safle lle cychwynnodd, ac mae hynny'n bwysig i'r gymuned Gatholig.
- A allem ni ddiweddarau a chynnal yr ysgolion presennol yn lle adeiladu ysgol newydd?
- Caewch y tair ysgol gynradd a chreu un ysgol gynradd fwy ar gyfer y Fwrdeistref Sirol, gan adael yr Esgob Hedley fel yr Ysgol Uwchradd.
- A ellid ymgorffori chweched dosbarth yn yr ysgol newydd, a thrwy hynny greu ysgol 3-19? Byddai ychwanegu chweched dosbarth yn annog mwy o ddisgyblion i ddod.
- Cynhwyswch yr holl ysgolion bwydo cynradd i fynychu rhwng 3 a 16 oed, nid dim ond ysgolion Merthyr Tudful.

- Penodwch Reolwr Trosiannol i oruchwylio'r gwaith adeiladu gan ganiatáu i'r strwythurau arweinyddiaeth presennol barhau. Ar ôl i'r ysgol gael ei hadeiladu, penodwch y Tîm Arweinyddiaeth gofynnol.
- Gall ysgol 3-16 nad yw ar un safle fod yn ddewis mwy poblogaidd ymhlith y rhieni.

6.0 SYLWADAU A FYNEGWYD GAN BLANT A PHOBL IFANC

Trefnwyd gweithdai ymgynghori gyda Chynghorau Ysgol i gasglu'u barn ynghylch y Cynnig.

Dyma rai o'r ymatebion cadarnhaol a ddaeth i law yn sgil yr Ymgynghoriad:

Ymatebion y cynradd

- "Bod gyda mwy o'n ffrindiau. Gwell cyfleusterau. Gwell addysg."
- "Hoffem gwrdd â phobl newydd a chael yr addysg orau. Bydd pethau newydd i'w gwneud ac rydyn ni eisiau gwisg newydd."

Ymatebion/sylwadau'r Fforwm Ieuenctid

- "Gallai hyn fod yn dda i Ferthyr. Gwell addysg dan arweiniad un Pennaeth mewn un safle, safonau uchel a chyson. Arbed arian ar safleoedd ysgolion. Gwerthu hen safleoedd ar gyfer tai - mwy o arian ar gyfer pethau eraill. Gwell o ran amddiffyn plant. Adeiladu perthnasoedd cryfach rhwng athrawon, disgyblion ac ati. Lleoliad da – safle'r Esgob Hedley. Mae angen ei rheoli'n dda a dylid ymgynghori â disgyblion ynghylch penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw fel yr amlinellwyd yn y CCUHP, Erthygl 12. Cyn lleied â phosib o staff yn colli'u swyddi."
- Mae safle'r Esgob Hedley yn ddelfrydol ar gyfer y Cynnig hwn. Cyfle gwych i gael yr holl ddisgyblion at ei gilydd. Angen un Pennaeth gwych gyda llawer o brofiad a chymhelliad."
- "Un ysgol, un dull - mae'n gweithio yn RhCT, felly bydd yn gweithio yma. Rwy'n difaru nad es i i ysgol fel hon - mae'n llai brawychus wrth fynd i ysgol gyfun am eich bod chi eisoes yn adnabod pawb ac mae'r rheolau'r un peth."
- "Dylid cynnwys pobl ifanc yn y cyfweiliadau am Bennaeth - mae angen penodi'r gorau."
- "Rwy'n hoffi'r Cynnig ac rwy'n credu y byddai o fudd i iechyd a llesiant y disgyblion - llai o straen wrth symud o ysgol i ysgol a llai o ofn wrth gwrdd â phobl newydd."
- "Cyfle ffab i ddisgyblion, llai o straen trosglwyddo - un ysgol, un Pennaeth - y gorau. Y disgyblion uwchradd i drosglwyddo i'r adeilad newydd yn gyntaf. Hyd y gellid, dylid rheoli'r gwaith adeiladu i leihau unrhyw darfu ar ddisgyblion."
- "Cadwch gynifer o'r swyddi â phosib. Edrychwch yn ofalus ar yr effaith ar gludiant i'r ysgol o ran cost ac amser."
- "Bydd yn sicrhau cysondeb o ran y dysgu. Ni fydd yna unrhyw syrpreis cas wrth bontio o'r cynradd i'r uwchradd. Lleoliad da i'r ysgol ar safle presennol yr Esgob Hedley. Bydd modd adeiladu perthnasoedd gwell rhwng athrawon, disgyblion a gofal bugeiliol. Gall cau ysgolion roi mwy o refeniw i'r Cyngor, mwy o le i adeiladu tai."
- "Gwnewch yn siŵr fod yna Bennaeth cryf fel bod pawb yn gwneud yr un peth i safon gyson uchel."

Dyma rai o'r ymatebion negyddol a ddaeth i law yn sgil yr Ymgynghoriad:

Ymatebion cynradd

- "Efallai na fyddem gyda'n ffrindiau. Mae ein hysgolion yn golygu llawer i ni!"

- “Bydd yna lawer o gwffio ac nid wyf am golli’r atgofion da sydd gennym ni am yr ysgol hon”
- “Rydyn ni eisoes wedi adeiladu ysgolion – mae’n mynd i gostio llawer o arian – mae’n berffaith fel y mae – ni fydd y plant bach yn gwybod lle i fynd – byddant yn drysu. Dim llawer o le na gofod.”

Ymatebion/sylwadau’r Fforwm Ieuenctid

- “Peidiwch â defnyddio’r Greenie - mae’r gymuned yn ei ddefnyddio ar gyfer pêl-droed, cerdded, chwarae ac ati. A fydd gan bob disgybl yr un wisg? Bydd rhaid rheoli’r dasg o ollwng a chasglu disgyblion yn ofalus. Cadwch dagfeydd traffig yn isel.”
- “Efallai na fydd rhai disgyblion byth yn cyrraedd yr ysgol newydd oherwydd problemau cludiant - TLODI.”
- “Nid wy’n cefnogi’r Cynnig oherwydd gallai ysgol sy’n cynnwys disgyblion iau a hŷn greu problemau sydd eisoes yn digwydd yn CA3 a CA4. Gallai ysgol sy’n cynnwys yr iau a’r hŷn arwain at broblemau difrifol. Byddai gan athrawon fwy o waith a mwy o straen oherwydd y cynnydd yn nifer y dosbarthiadau a’r disgyblion. Mae’n ormod o waith a straen i un person - y Pennaeth. Gallai arwain at broblemau parcio enfawr. Bydd rhieni’n talu mwy am drafnidiaeth - efallai bydd yn rhaid i ddisgyblion fynd i ysgol wahanol.”

7.0 ASESU’R YMGYNGHORIADAU

Trwy gydol y broses ymgynghori, mynegwyd pryderon ynghylch amseriad a fforddiadwyedd y dasg o benodi Pennaeth ar gyfer Medi 2020.

Yn sgil hynny ac yn dilyn trafodaethau pellach â’r Archesgobaeth, argymhellwyd y dylid diwygio’r Cynnig i benodi’r Pennaeth o fis Medi 2022, sef blwyddyn cyn y disgwylir i’r ysgol symud i un safle. Tan fis Medi 2022, byddai’r ysgolion yn aros fel y maent.

Dros y deuddeg mis nesaf, byddir yn rhoi ystyriaeth bellach i’r ddau safle a gynigir ar hyn o bryd.

8.0 BARN ESTYN (AROLYGIAETH EI MAWRHYDI DROS ADDYSG A HYFFORDDIANT YNG NGHMYRU) O RINWEDDAU CYFFREDINOL Y CYNNIG

I ddilyn, ceir ymateb Estyn i’r cynnig ar y cyd gan Archesgobaeth Caerdydd a Chyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful i greu un ysgol ffydd 3 i 16 oed.

Paratowyd yr adroddiad hwn gan Arolygwyr Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. O dan delerau Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a’i Chod cysylltiedig, mae’n ofynnol i gynigwyr anfon dogfennau ymgynghori i Estyn. Fodd bynnag, nid yw Estyn yn gorff y mae’n ofynnol iddo weithredu yn unol â’r Cod ac nid yw’r Ddeddf yn gosod unrhyw ofynion statudol ar Estyn o ran materion trefniadaeth ysgolion. Felly, fel corff yr ymgynghorir ag ef, bydd Estyn yn rhoi eu barn ar rinweddau cyffredinol cynigion trefniadaeth ysgolion yn unig.

Mae Estyn wedi ystyried yr agweddau addysgol ar y cynnig ac mae wedi llunio’r ymateb canlynol i’r wybodaeth a ddarparwyd gan y cynigiwr a gwybodaeth ychwanegol arall fel

data gan Lywodraeth Cymru a barn y Consortia Rhanbarthol sy'n cyflwyno gwasanaethau gwella ysgolion i'r ysgolion yn y cynnig.

Crynodeb / Casgliad

Ym marn Estyn, mae'r cynnig i greu un ysgol ffydd i ddisgyblion 3 i 16 oed o leiaf yn debygol o gynnal safon y ddarpariaeth addysgol a'r deilliannau i'r disgyblion sy'n cael eu heffeithio.

Disgrifiad a manteision

Mae'r cynigiwr wedi nodi'r sail resymegol yn glir, mewn dogfen drefnus a hygyrch. Mae'r cynigiwr wedi cyfrif yn briodol am y broses ymgynghori ac wedi ymgynghori ag amrywiaeth eang o randdeiliaid, gan gynnwys disgyblion o'r ysgolion dan sylw.

Mae'r cynnig yn cynnwys ffeithiau allweddol, amserlenni, cyfeiriad at greu ysgol ffydd 3 i 16 oed yn llwyddiannus, nodweddion yr holl ysgolion y mae'r cynnig yn effeithio arnynt, gan gynnwys nifer y lleoedd, nifer derbyniadau, nifer y disgyblion ar y gofrestr, prydau ysgol am ddim a chwestiynau cyffredin.

Mae'r cynnig yn datgan yn glir fod Llywodraeth Cymru a'r Awdurdod Esgobaethol wedi ymrwymo i fuddsoddiad ariannol mawr er mwyn gwella adeiladau presennol yr ysgol ac adeiladu rhai newydd yn eu lle. Mae'r cynigiwr wedi ystyried safle'r adeiladau newydd a'r effaith ar seilwaith y ffyrdd a'r rheolaeth ar draffig. Mae'r cynigiwr yn amcangyfrif y bydd yr adeilad newydd yn cael ei gwblhau erbyn 2022/2023 pe bai'r cynnig yn cael ei dderbyn.

Mae'r cynnig yn datgan manteision y cynnig yn glir, gan gynnwys y manteision addysgol. Mae'r rhain yn ymddangos yn rhesymol a byddant yn rhoi cyfleoedd i staff barhau â'u datblygiad proffesiynol, gan eu galluogi i ffurfio un tîm arwain ac un Corff Llywodraethol. Mae'r cynigiwr yn datgan y bydd hyn yn cefnogi Pennaeth â phrofiad ysgol gyfan. Mae'r cynigiwr yn datgan y bydd greu ysgol ffydd newydd i ddisgyblion 3 i 16 oed yn sicrhau parhad y ddarpariaeth, yn adlewyrchu un ethos a diwylliant, yn rhyddhau cyllid y gellir ei ailfuddsoddi mewn dysgu ac addysgu, ac yn symleiddio'r cyfathrebu rhwng rhieni a staff, gan greu un pwynt cyswllt trwy gydol gyrfa ysgol disgyblion. Mae'r rhain yn ymddangos yn rhesymol ac yn briodol. Fodd bynnag, nid ydynt yn amlygu anfanteision posibl eraill, er enghraifft p'un a fydd cyfleusterau a chapasiti gwell i hyrwyddo dysgu disgyblion, a hyblygrwydd i fynd i'r afael ag anghenion unigol.

Mae'r cynigiwr yn datgan yn glir anfanteision a risgiau posibl y gallai'r cynnig eu hwynebu. Mae'r cynigiwr yn cydnabod y bydd angen i'r ysgol a'r Cyngor reoli'r anfanteision a'r risgiau hyn yn ofalus er mwyn osgoi unrhyw effaith niweidiol. Mae'r rhain yn cynnwys y tarfu ar y rheolaeth ar staff ac adnoddau yn ystod y broses ailstrwythuro a'r gostyngiad i un Pennaeth, a allai effeithio ar ba mor hawdd y bydd hi i staff, rhieni a disgyblion gysylltu ag arweinwyr. Hefyd, mae'r cynigiwr wedi amlygu anawsterau posibl wrth ddwyn tair set wahanol o arferion gweithio ynghyd mewn un ysgol a gwrthwynebu ac ymddieithrio posibl ymhlith rhanddeiliaid. Fodd bynnag, nid oes cyfeiriad at effaith bosibl y cynnig ar y cymunedau sy'n cael eu gwasanaethu gan y tair ysgol gynradd.

Mae'r cynigiwr wedi ystyried nifer o opsiynau eraill yn rhesymol. Mae'r rhain yn cynnwys cynnal y sefyllfa sydd ohoni, adnewyddu'r holl ysgolion dan sylw, ffedereiddio'r holl ysgolion cynradd yn y cynnig a'u bod yn aros ar eu safleoedd presennol, ffedereiddio'r holl ysgolion a enwir yn y cynnig a'u bod yn aros ar eu safleoedd presennol, ymgynghori ar gael un ysgol uwchradd Gatholig ym Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf ynghyd, neu greu un ysgol Gatholig newydd i ddisgyblion 3 i 16 oed ar un safle.

Mae'r cynigiwr wedi amlinellu'r manteision a'r anfanteision yn glir ar gyfer pob opsiwn arall.

Yn ôl y cynnig, pe bai'r cynnig yn mynd yn ei flaen, byddai corff llywodraethol dros dro yn cael ei benodi am gyfnod interim hyd nes bod yr ysgol newydd yn agor. Bydd y corff llywodraethol dros dro yn penodi Pennaeth newydd ac yn cynnig strwythurau staffio arwain a rheoli ar gyfer yr ysgol newydd. Mae hyn yn ymddangos yn rhesymol.

Agweddau addysgol ar y cynnig

Mae'r cynigiwr wedi cyfeirio'n rhesymol ac yn fanwl at ansawdd presennol y deilliannau, y ddarpariaeth a'r arweinyddiaeth a rheolaeth ar gyfer pob ysgol sy'n gysylltiedig â'r cynnig. Hefyd, mae'r cynigiwr wedi cynnwys gwybodaeth am gategorïau Llywodraeth Cymru ar gyfer yr ysgolion.

Mae'r cynigiwr wedi rhoi disgrifiad maith o'r effaith fwriadedig ar ddeilliannau addysgol a'r ddarpariaeth, a'r manteision y gallai'r newid eu cynnig. Mae'r rhain yn cynnwys mwy o gyfleoedd i staff addysgu a staff cymorth gymryd rhan mewn datblygiad proffesiynol, mwy o gyfleoedd i staff symud rhwng cyfnodau allweddol a datblygu arbenigedd, a darparu cwricwlwm mwy priodol a allai wella presenoldeb a deilliannau.

Dywed y cynigiwr yn rhesymol y bydd effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth trwy wella ystod ac ansawdd yr adnoddau addysgu, parhad cymorth i ddisgyblion mwy agored i niwed a gwreiddio'r ethos Catholig ym mhob ystod oedran yn yr ysgol. Mae'r cynigiwr yn datgan yn glir y bydd effaith gadarnhaol ar arweinyddiaeth a rheolaeth trwy ddosbarthu tasgau arwain a chreu cyfleoedd arwain i ystod ehangach o staff. Mae'r cynigion hyn yn ymddangos yn rhesymol.

Mae gan y cynigiwr wybodaeth briodol, fanwl am y trefniadau derbyn a threfniadau'r dalgylch ar gyfer y cynnig. Ethos Catholig fydd i'r ysgol. Ni fydd newid i ddalgylch yr ysgol.

Mae'r cynigiwr wedi cynnwys manylion priodol am gyllid, gan gynnwys costau cynnal a buddsoddiad cyfalaf. Mae angen trafodaeth bellach a chytundeb o hyd ar y fformiwla ddiwygiedig ar gyfer model cyllido'r ysgol 3 i 16 oed. Mae'r cynigiwr yn datgan na fydd angen unrhyw fuddsoddiad cyfalaf ar y cynnig i ddechrau, gan fod y cynnig yn gysylltiedig â Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif 2019 i 2026 y Cyngor, sydd wedi'i chymeradwyo gan Lywodraeth Cymru.

Mae'r cynigiwr yn datgan na fydd unrhyw newid i nifer cyfan y lleoedd yn yr ysgol ac nid yw'n rhagweld unrhyw newidiadau i dagfeydd traffig o gwmpas yr ysgol. Dywed y cynigiwr nad oes cynlluniau i newid polisi'r Cyngor ar gludo disgyblion i'r ysgol ac ohoni. Fodd bynnag, nid yw'r cynnig yn ystyried yr effaith ar deithio wedi i'r ysgol newydd gael ei chwblhau, yn enwedig i ddisgyblion ysgol gynradd.

Mae'r cynigiwr wedi cynnal asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ac ar y Gymraeg. Mae'r cynigiwr wedi cynnal ystyriaeth briodol o'r effaith ar y gymuned. Mae wedi dod i'r casgliad yn rhesymol y bydd yr ysgol 3 i 16 oed newydd yn gwella'r ymgysylltu â'r gymuned dros ystod oedran ehangach ac y bydd y cyfleusterau cymunedol presennol yn aros yr un fath. Nid yw'r asesiad o'r effaith ar y gymuned yn ystyried yn ddigon manwl p'un a fydd adleoli'r ysgol yn cael effaith andwyol ar raddau ymgysylltiad y gymuned a'r rhieni yn yr ardaloedd sy'n cael eu gwasanaethu gan yr ysgolion cynradd presennol ar hyn o bryd.

Ymateb yr Awdurdod Lleol

Trwy gydol yr Ymgynghoriad, mae'r Awdurdod Lleol a'r Archesgobaeth wedi cydweithio'n agos i leihau, hyd y gellid, yr effaith ar gymunedau a theithio. Pe bai'r Cynnig hwn yn symud ymlaen, byddai'r sgysiau hyn yn parhau.

9.0 CASGLIAD

Yng nghyfarfod y Cabinet ddydd Mercher, 11 Medi 2019, cytunwyd i fwrw ymlaen â'r Cynnig yr ymgynghorwyd arno, heb unrhyw addasiadau, a'i gyhoeddi ar ffurf Hysbysiad Statudol.



ARCHDIOCESE
of CARDIFF
& MERTHYR TYDFIL
ARCHDIOCESE
of CARDIFF
& MERTHYR TYDFIL



DOGFEN YMGYNGHORI

**Ar y cynnig i greu un Ysgol Gatholig 3-16
ym Merthyr Tudful trwy:**

1. Diddymu YGG Sant Aloysius, Y Ffederasiwn o YGG
Sant Illtyd ag YGG Y Santes Fair a hefyd YGU Yr Esgob
Hedley
2. Creu un ysgol Addysg Gatholig 3-16 gyfan
gynhwysfawr

CYNNWYS

Rhagair.....	3
Cyflwyniad	5
Esboniad o'r termau a ddefnyddir yn y ddogfen hon.....	6
Cynnwys plant yn yr ymgynghoriad	7
Cynnwys rhieni, llywodraethwyr a staff - sut y gallwch chi ddarganfod mwy a rhoi eich barn	8
Mae eich Barn Chi yn Bwysig.....	9
Cefndir	9
Y Cynnig.....	10
Dalgylch	11
Ysgolion sy'n gwasanaethu'r ardal ar hyn o bryd	11
Gwybodaeth am yr ysgolion.....	11
Perfformiad cyfredol	13
Yr effaith arfaethedig ar ganlyniadau addysg	22
Beth yw manteision y cynnig hwn?	25
Beth yw anfanteision y cynnig hwn?	25
Opsiynau gwahanol	25
Cynllun Pontio os cymeradwyir y cynigion	27
Risgiau sy'n gysylltiedig â'r cynnig.....	27
Trefniadau derbyn a dalgylch	27
Cyllid	27
Materion Adnoddau Dynol.....	28
Materion Trafnidiaeth	28
Trefniadau teithio dysgwyr	28
Effaith y cynnig ar yr Iaith Gymraeg	29
Asesiad Effaith Cydraddoldeb	29
Ystyried Effaith ar y Gymuned.....	29
Dyddiadau allweddol.....	29
Cyfnod Ymgynghori	30
Hysbysiad Statudol	30
Penderfynu ar y cynigion.....	30
Hysbysu'r Penderfyniad	30
Cwestiynau a Ofynnir yn Aml	31
Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad	33
Ffurflen Monitro Cydraddoldeb	35



"Cenhadaeth yr ysgol yw datblygu ymdeimlad o wirionedd, o'r hyn sy'n dda a hardd. Ac mae hyn yn digwydd trwy lwybr cyfoethog sy'n cynnwys llawer o gynhwysion ".

"Mae addysg wirioneddol yn ein galluogi i garu bywyd ac yn ein gwneud yn agored i lawnder bywyd".

Mae'r geiriau'r Pab Francis yn cyfeirio at athrawon ysgol yn yr Eidal ar 10 Mai 2014, ynghyd â llawer o ddogfennau addysgol a pholisïau Esgobion Catholig Cymru a Lloegr, wedi bod yn ysbrydoliaeth i mi wrth i mi archwilio patrymau cydweithio newydd rhwng ysgolion Archesgobaeth Caerdydd. Fy nod craidd yw sicrhau hyfywedd ein hysgolion yn y dyfodol ac i ddarparu'r addysg orau bosibl i'r plant a ymddiriedir i'n gofal.

Fel Archesgobaeth Caerdydd, rhan o'n cenhadaeth yw adeiladu ar ein harfer da bresennol i sicrhau rhagoriaeth a hyfywdra addysg Gatholig yn y dyfodol. Mae'r genhadaeth hon yn seiliedig ar werthoedd ysbrydol cryf ac ymchwil addysgol gadarn. Ein huchelgais yw:

- Creu system addysg Gatholig o safon fyd-eang sy'n galluogi holl blant yr Archesgobaeth i gyflawni eu potensial ysbrydol, addysgol a dynol.
- Gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid ar ailstrwythuro ein hysgolion i ddarparu system gynaliadwy sy'n addas ar gyfer y dyfodol.

Mae ein cenhadaeth yn gwbl unol â dyheadau Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg. Cefnogir hyn gan dystiolaeth Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (SCDE/OECD). Rwy'n ymwybodol o'r angen am weithio'n agosach rhwng ein hysgolion. Bydd ein cynnig ar gyfer ysgol 3-16 newydd i gymryd lle Ysgolion Cynradd Sant Aloysius, Sant Illtyd a'r Santes Fair ac Ysgol Uwchradd yr Esgob Hedley yn caniatáu trosglwyddo di-dor o'r blynyddoedd cynnar hyd at TGAU. Bydd yn ein rhoi mewn sefyllfa fanteisiol i gyflwyno'r cwricwlwm newydd a rhoi manteision taith addysgol ddi-dor i'n plant. Bydd yn ein galluogi i barhau i adeiladu ar yr addysg dda iawn a gynigir ar hyn o bryd gan yr ysgolion hynny mewn campws

cyfoes. Bydd yn darparu manteision sylweddol i'r ysgolion Catholig y tu allan i'r sir sy'n bwydo i Ysgol Uwchradd yr Esgob Hedley ar hyn o bryd trwy sefydlu trefniadau gweithio a chynllunio agosach gyda'r ysgol 3-16 newydd.

Rwy'n gwbl gefnogol i'r cynnig hwn a fydd yn datblygu:

- campws dysgu lle bydd plant yn datblygu eu ffydd, eu sgiliau a'u gwybodaeth fel dinasyddion hyderus yr 21ain ganrif sy'n falch o'u cymuned a'u treftadaeth;
- gwelliant parhaus wedi'i seilio ar arferion cyfredol da;
- campws gyda chyfleusterau gwych ar gyfer pob ystod oedran;
- canolfan ragoriaeth mewn addysgu a dysgu Catholig sy'n gweithio mewn partneriaethau agos â'i holl ysgolion eglwysi bwydo;
- canolfan addoliad a chymdeithasol ar gyfer plwyfi ysgolion a'u cymunedau.

Bydd y broses ymgynghori hon yn rhoi cyfle i bawb sy'n gysylltiedig â'n cymuned o ysgolion Catholig i ofyn cwestiynau am y cynnig cyffrous hwn. Mae'n bwysig bod yr holl weledigaeth o'r hyn y gellir ei gyflawni ar gyfer ein cymuned yn cael ei rannu a'i ddeall gan bawb.

Rwy'n hyderus y bydd yr ysgol Gatholig 3-16 arfaethedig yn amgylchedd cryf a chefnogol. Rwy'n gwybod y bydd yr ysgol yn adeiladu ar yr ethos, llwyddiannau a chyflawniadau sydd eisoes wedi'u cydnabod yn y pedair ysgol unigol a fydd yn eu disodli. Bydd yn parhau i adeiladu ar safonau uchel yr ysgolion bwydo cynradd y tu allan i'r sir trwy weithio mewn partneriaeth agosach â hwy.

Nid yw eich plant yn haeddu dim llai.

Y Gwir Barchedig George Stack

Archesgob Caerdydd

CYFLWYNIAD

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gyfle i chi ddysgu am y cynnig ad-drefnu ysgolion sy'n cael ei gyflwyno ar gyfer YGG Sant Aloysius, Ffederasiwn YGG Sant Illtyd ac YGG Santes Fair a hefyd Ysgol Uwchradd yr Esgob Hedley ac i ddweud wrthyich sut i adael i ni wybod eich barn chi. Dyma eich cyfle chi i holi cwestiynau a rhoi sylwadau a fydd yn cael eu hystyried pan fydd y Cyngor yn penderfynu sut i symud ymlaen.

Mae'r ddogfen hon yn egluro'r cynnig ar y cyd rhwng Archesgobaeth Caerdydd a Chyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful (y cynigwyr) i ddiddymu YGG Sant Aloysius, ffederasiwn YGG Sant Illtyd ac YGG Santes Fair a hefyd Ysgol Uwchradd yr Esgob Hedley trwy:

- ddiddymu YGG Sant Aloysius, ffederasiwn YGG Sant Illtyd ac YGG Santes Fair a hefyd Ysgol Uwchradd yr Esgob Hedley
- creu darpariaeth un ysgol ffydd 3-16

Mae'r broses ymgynghori yn dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru a amlinellir yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion 2013 ac felly, gofynnir am amrediad o unigolion a grwpiau am eu barn am y cynigion hyn.

Cyn i unrhyw benderfyniadau gael eu gwneud, mae'n rhaid i'r cynigwyr sicrhau eu bod yn cynnig nifer o gyfleoedd i unigolion a grwpiau â diddordeb wneud eu safbwyntiau a'u barn yn hysbys ar y cynnig.

Mae'r cynigwyr yn ymgynghori â'r grwpiau canlynol:

Ysgol Gynradd Gatholig Sant Aloysius

- Staff (sy'n addysgu ac nad sy'n addysgu)
- Llywodraethwyr
- Rhieni / Gofalwyr disgyblion
- Disgyblion

Ysgol Gynradd Gatholig Sant Illtyd (*)

- Staff (sy'n addysgu ac nad sy'n addysgu)
- Corff Llywodraethol Ffederal (gyda Santes Fair)
- Rhieni / Gofalwyr disgyblion
- Disgyblion

Ysgol Gynradd Gatholig Santes Fair (*)

- Staff (sy'n addysgu ac nad sy'n addysgu)
- Corff Llywodraethol Ffederal (gyda Sant Illtyd)
- Rhieni / Gofalwyr disgyblion
- Disgyblion

•

*** Ar hyn o bryd mae'r ddwy ysgol Sant Illtyd a Santes Fair yn ffederasiwn gydag un corff llywodraethol, un pennaeth**

Ysgol Uwchradd Esgob Hedley

- Staff (sy'n addysgu ac nad sy'n addysgu)
- Llywodraethwyr
- Rhieni / Gofalwyr disgyblion
- Disgyblion

- **Grwpiau Eraill**

- Partneriaeth Cymunedau yn Gyntaf
- Aelodau'r Cynulliad (ACau)
- Aelodau Seneddol (ASau)
- Aelodau Cynulliad Rhanbarthol
- Cynghorwyr Lleol
- Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC)
- Comisiynydd y Gymraeg
- Rhieni dros Addysg Gymraeg (RHAG)
- Ysgolion Cynradd ac Uwchradd Cyfagos yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
- Undebau Llafur
- Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolog y De
- Cyfarwyddwyr Addysg - yr holl awdurdodau cyfagos
- Estyn
- Sefydliadau Addysg Bellach ac Uwch
- Comisiynydd Heddlu a Throseddau Lleol
- Gweinidogion Llywodraeth Cymru
- Adran Drafnidiaeth y Cyngor Diocesan
- Cyfarwyddwyr Addysg

ESBONIAD O'R TERMAU A DDEFNYDDIR YN Y DDOGFEN HON

Rhif Derbyniadau - rhaid i bob ysgol a gynhelir dderbyn disgyblion hyd at eu rhif derbyn cyhoeddedig o leiaf. Y nifer derbyn yw nifer y lleoedd disgyblion sydd ar gael ym mhob grŵp blwyddyn.

Cyfuniad - y broses o gyfuno neu uno nifer o ysgolion mewn un ysgol.

Cymeriad Ysgol - proffil cyffredinol yr ysgol.

Oedran Ysgol Orfodol - dechrau'r tymor yn dilyn pen-blwydd plentyn yn bump oed.

'CCD' - Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolog y De - y Gwasanaeth Gwella Ysgolion rhanbarthol ar gyfer pum awdurdod lleol Pen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf a Bro Morgannwg.

Y Cyngor – Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful.

DGA/DDA - Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd. Ni ddylai ysgolion drin disgyblion anabl yn llai ffafriol nag eraill. Rhaid iddynt wneud "addasiadau rhesymol" i sicrhau nad yw disgyblion anabl o dan anfantais sylweddol, a rhaid iddyn nhw baratoi cynlluniau hygyrchedd yr ysgol i ddangos sut y byddant yn cynyddu mynediad at addysg i ddisgyblion anabl dros amser.

Diddymu - lle mae'r awdurdod lleol yn argymhell eu bod yn peidio â chynnal yr ysgol.

'AEC' – Asesiad Effaith Cydraddoldeb yw'r broses a gynlluniwyd i sicrhau nad yw polisi, prosiect neu gynllun yn gwahaniaethu yn erbyn unrhyw bobl dan anfantais neu sy'n fregus.

'AEC/EIA' - Asesiad Effaith Cydraddoldeb [AEC] yw proses a ddyluniwyd i sicrhau nad yw polisi, prosiect neu gynllun yn gwahaniaethu yn erbyn unrhyw bobl sydd dan anfantais nac yn agored i niwed.

'Ffederasiwn' – trefniant ffurfiol yw hwn lle mae dwy neu ragor o ysgolion yn cael eu llywodraethu gan un corff llywodraethol gydag un Pennaeth gweithredol ac un strwythur arweinyddiaeth.

'PYADd' – Prydau Ysgol Am Ddim.

'ALI' – Awdurdod Lleol, sy'n golygi Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful.

'CCD' – Cynorthwydd Cymorth Dysgu.

'Nifer ar y gofrestr' - nifer y disgyblion sy'n mynychu ysgol.

‘CYBLD’ – Cyfrifiad Ysgolion Blynnyddol Lefel Disgyblion. Ym mis Ionawr bob blwyddyn, casglir gwybodaeth wirio gan ysgolion i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys nifer y disgyblion sydd wedi'u cofrestru ym mhob ysgol, eu grwpiau oedran, cyfeiriadau cartref, ethnigrwydd a data ar yr iaith Gymraeg, cymhwyster prydau ysgol am ddim, anghenion addysgol arbennig ac iaith gyntaf.

‘AAA’ – Anghenion Addysgol Arbennig.

Gweithredu Ysgol (GY) - pan fydd athro dosbarth neu bwnc yn nodi bod gan ddisgybl AAA, maen nhw'n darparu ymyriadau sy'n ychwanegol at y rhai a ddarperir fel rhan o gwricwlwm arferol yr ysgol neu'n wahanol iddo.

Gweithredu Ysgol Ychwanegol (GY+) – pan roddir cyngor neu gefnogaeth gan arbenigwyr y tu allan i athro dosbarth neu athro pwnc a'r Cydlynnydd AAA, fel y gellir rhoi ymyriadau amgen ychwanegol neu wahanol i'r rhai a ddarperir ar gyfer y disgybl trwy'r Ysgol.

‘SAD’ – Sylfaen Adnoddau Dysgu ar gyfer plant ag AAA.

Datganiadol – mae gan blentyn Ddatganiad o Angen Addysgol os oes ganddo anawsterau dysgu y mae angen gwneud darpariaeth addysgol arbennig iddo ef neu hi. Mae anhawster dysgu yn golygu bod gan y plentyn anhawster sylweddol mewn dysgu na'r rhan fwyaf o blant o'r un oedran neu fod gan y plentyn anabledd sydd angen cyfleusterau addysgol gwahanol o'r rheiny y mae'r ysgol yn eu darparu ar gyfer plant yn gyffredinol.

Hysbysiad Statudol – Hysbysiad Statudol yw cyhoeddi cynnig terfynol yn ffurfiol, os caiff ei gymeradwyo gan Gabinet y Cyngor, a dim ond unwaith y byddant wedi derbyn yr holl ymatebion o'r broses ymgynghori. Mae hwn yn ofyniad cyfreithiol fel yr amlinellir yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion 2013.

Darpariaeth ysgol amser llawn – mae polisi'r Cyngor yn caniatáu i bob plentyn sydd wedi cyrraedd eu pedwerydd pen-blwydd ar neu cyn 31 Awst i fynychu'r ysgol amser llawn ym mis Medi. Nid yw hyn yn ofyniad cyfreithiol. Mae rhai rhieni / gofalwyr yn dewis anfon eu plentyn i'r ysgol yn yr **Oes Ysgol Orfodol**. Hwn oedd sefyllfa hirdymor yr awdurdod lleol y dylai pob plentyn gael mynediad i addysg feithrin rhan amser am ddim o'r tymor yn dilyn trydydd pen-blwydd y plentyn. Yn ymarferol, mae plant yn dechrau mynychu ysgolion meithrin neu ddosbarthiadau meithrin yn dair neu bedair blynedd, yn dibynnu ar gyfyngiadau rhif dosbarth a galw lleol.

CYNNWYS PLANT YN YR YMGYNGHORIAD

Mae'r cynigwyr yn credu'n gryf y dylai disgyblion yr holl ysgolion dan sylw gael y cyfle i fynegi eu barn am y cynnig hwn.

Cynhelir gweithdy ymgynghori gyda Chyngor Ysgol yr holl ysgolion sy'n rhan o'r cynnig i gasglu barn y plant am y cynnig. Bydd y wybodaeth a gesglir yn y sesiynau hyn yn cael ei gynnwys yn yr adroddiad ymgynghori terfynol. Bydd yr adroddiad llawn yn cael ei gyflwyno i Gabinet y Cyngor a'r swyddogion esgobaethol i'w hystyried yn dilyn y cyfnod ymgynghori.

CYNNWYS RHINI, LLYWODRAETHWYR A STAFF - sut y gallwch chi ddarganfod mwy a rhoi eich barn

Mae'r cynigwyr yn bwriadu cynnal sesiynau galw heibio i bob rhanddeilydd yr ymgynghorir â hwy fel rhan o'r broses.

Gwahoddir rhieni a gofalwyr disgyblion yn yr ysgolion meithrin a chynradd i fynychu sesiynau galw heibio'r rhieni lle gallwch ofyn unrhyw gwestiynau am y cynnig. Byddwn bob amser yn gofyn ichi lenwi ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad, gan mai dim ond yn ysgrifenedig y gallwn dderbyn sylwadau.

Gellir dod o hyd i'r ddogfen hon a gwybodaeth ategol bellach ar wefan Merthyr Tudful:
<https://www.merthyr.gov.uk/council/have-your-say/>

Gellir dod o hyd i'r dolenni i'r ddogfen hon ar y cyfryngau cymdeithasol trwy gyfrif Twitter Cyngor Merthyr Tudful ac ar dudalen Facebook Cyngor Merthyr Tudful.

MAE EICH BARN CHI YN BWYSIG

Bydd y cyfnod ymgynghori yn rhedeg o **Dydd Llun 29 Ebrill 2019 tan ddydd Sul 30 Mehefin 2019**. Gallwch ymateb i'n cynigion ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod hwn.

Mae eich barn yn bwysig i ni, ac mae yna nifer o ffyrdd y gallwch chi roi gwybod i ni.

Fe allwch:

- Gwblhau'r ffurflen ymateb ar-lein yn: <https://www.smartsurvey.co.uk/s/single-3-16-catholic-school/>
- Mynychu'r sesiwn galw heibio a siarad â ni yn bersonol. Mae hon yn ffordd dda o allu cael atebion i unrhyw gwestiynau sydd gennych am y cynigion. Byddwn yn dal i ofyn ichi lenwi ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad, gan mai dim ond yn ysgrifenedig y gallwn dderbyn sylwadau.
- Cwblhewch a dychwelwch y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad i'r cyfeiriad a roddir isod:
 - Prif Swyddog Addysg, Adran Ddysgu, Uned 5, Pentrebach, Merthyr Tudful, CF48 4TQ

Bydd yr holl ymatebion a roddir i ni yn ysgrifenedig, gan ddefnyddio'r ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad, yn cael eu hystyried gan Gabinet y Cyngor cyn iddo benderfynu p'un ai i gyhoeddi Hysbysiad Statudol ynghylch y cynigion ai peidio.

Ni fydd yr ymatebion a dderbynnir gan yr ymgynghoreion sy'n gwrthwynebu'r cynigion hyn, er eu hystyried fel rhan o'r adroddiad ymgynghori, yn cael eu trin fel gwrthwynebiadau statudol. Byddai gwrthwynebiad statudol yn rhan o'r cyfnod rhybudd statudol, os caiff ei gymeradwyo yn y cam nesaf, gan Gabinet y Cyngor.

Os ydych chi'n dymuno gwrthwynebu'r hysbysiad yng nghyfnod nesaf y broses, pe bai hynny'n mynd rhagddo, bydd angen i chi wneud hynny yn ysgrifenedig yn ystod y cyfnod

gwrthwynebu statudol. Amlinellir y dyddiadau allweddol hyn yn Amserlen y Broses Statudol ar dudalen 21.

Y dyddiad cau ar gyfer ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yw **ddydd Sul 30 Mehefin 2019**. Yn anffodus, ni fydd y Cyngor yn ystyried unrhyw ymatebion a dderbynnir ar ôl y dyddiad hwn.

CEFNDIR

Ers 2015, mae swyddogion o Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, ar y cyd â swyddogion o Archesgobaeth Caerdydd, wedi bod yn cynnal cyfarfodydd ymgynghori anffurfiol ar ddyfodol addysg Gatholig ym Merthyr Tudful. Daeth nifer o faterion i'r amlwg yn ystod y broses hon y mae angen mynd i'r afael â hwy i sicrhau cynaliadwyedd hirdymor ar gyfer addysg Gatholig yn y fwrdeistref. Roedd y rhain yn cynnwys yr angen i wella'r amgylchedd dysgu a sicrhau bod arweinyddiaeth ragorol ar draws y sector.

Mae'r Cyngor yn derbyn bod angen moderneiddio'r ddarpariaeth addysg ar draws y fwrdeistref. Ni chaiff gwelliant addysg ei gynnal heb newidiadau yn y modd y darperir y ddarpariaeth addysgol.

Mae gwella addysg i bawb yn flaenoriaeth i'r Cyngor; adlewyrchir hyn yng ngweledigaeth a chynllun corfforaethol y Cyngor.

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i wella'r cynnig ffydd yn y fwrdeistref a gweithio ochr yn ochr ag Archesgobaeth Gatholig Caerdydd i sicrhau cynaliadwyedd y cynnig ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol nid yn unig ym Merthyr Tudful ond hefyd yn y plwyfi cyfagos.

Ar 25 Gorffennaf 2018, cymeradwyodd y Cyngor ddechrau ymarfer ymgynghori cyhoeddus ynglŷn â chynnig ad-drefnu'r ysgol i gau ddiddymu YGG Sant Aloysius, ffederasiwn YGG Sant Illtyd ac YGG Santes Fair a hefyd Ysgol Uwchradd yr Esgob Hedley creu darpariaeth un ysgol ffydd 3-16 o 1 Medi 2019 ymlaen. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng dydd Llun 3ydd Medi a dydd Llun 14 Hydref 2018.

Cyflwynwyd canlyniad yr ymgynghoriad mewn adroddiad i'r Cabinet ar 21 Tachwedd 2018, a roddodd fanylion am ohebiaeth a dderbyniwyd yn ystod yr ymarfer ymgynghori a nodiadau amrywiol gyfarfodydd. Yn dilyn trafodaeth, ac o ganlyniad i'r ymatebion a dderbyniwyd, yn benodol mewn perthynas â safle'r ysgol newydd, cytunwyd y byddai ymarfer ymgynghori newydd yn cael ei wneud sy'n nodi'r safleoedd arfaethedig ar gyfer yr ysgol newydd. Cynhelir yr ymgynghoriad newydd yn unol â rhifyn Cod newydd Trefniadaeth Ysgolion (2il Argraffiad) Tachwedd 2018

Y CYNNIG

Mae'r Cyngor yn bwriadu diddymu YGG Sant Aloysius, ysgolion cynradd Ffederasiwn Sant Illtyd ac Ysgol Gynradd y Santes Fair a hefyd ysgol Uwchradd yr Esgob Hedley o 1 Medi 2020 ac y byddai Archesgobaeth Gatholig Caerdydd yn creu 'ysgol gyfan' rhwng 3 a 16 oed ar draws safleoedd presennol yr ysgolion.

Os cytunir ar y cynnig presennol a'i weithredu byddai'r ysgolion presennol yn cau ar Awst 31ain 2020. Byddai strwythur llywodraethu'r ysgol gyfan newydd yn dechrau ar 1 Medi 2020.

Fel rhan o'r cynnig cyffredinol mae Llywodraeth Cymru, y Cyngor a'r Awdurdod Esgobaethol wedi ymrwymo i fuddsoddi tua £ 27 miliwn i ailosod adeiladau'r ysgolion presennol. Byddai hyn yn golygu, pe bai'r cynnig hwn yn cael ei weithredu, bydd ysgol 3-16 a adeiladwyd yn bwrpasol yn cael ei greu a'i leoli mewn cyfleusterau newydd a bwrpaswyd ar gyfer dulliau dysgu modern.

Yn dilyn ymgynghoriad â'r adrannau Peirianeg, Cynllunio, Priffyrdd a Diogelwch ar y Ffyrdd, mae'r ddau safle a ystyrir yn adeilad newydd ar 'The Greenie' neu ailadeiladu ar un o safleoedd Ysgol Uwchradd yr Esgob Hedley. Amcangyfrifir y bydd yr adeilad ysgol newydd yn barod 2023/2024.

Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn cyflawni ei weledigaeth i drawsnewid adeiladau ysgolion trwy ei raglen gyfalaf mewn partneriaeth â Rhaglen Ysgolion ac Addysg yr 21ain Ganrif Llywodraeth Cymru. Mae'r rhaglen hon wedi cefnogi adnewyddu Afon Taf ac mae'n cefnogi adeilad newydd Ysgol Y Graig. Mae'r cynnig presennol hwn yn rhan o ffrwd cyllid Band B ac mae'r cyngor mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru wedi sicrhau bron i £ 54 miliwn ar gyfer buddsoddi rhwng 2018/19 a 2025/26.

Bydd yr Ysgol Gatholig newydd ar gyfer pobl ifanc rhwng 3 a 16 oed a byddai'n cael ei ddosrannu fel Cyfrwng Saesneg, Gwirfoddol a Gynorthwyr. Mae ysgolion categori 'Cymorth Gwirfoddol' yn ysgolion eglwysig sy'n rheoli eu prosesau derbyn eu hunain. Mae'r corff llywodraethol yn cyflogi'r staff ac mae'n gosod y meini prawf derbyn. Mae adeiladau ysgol a thir yn aml yn eiddo i elusen, yr Eglwys fel arfer.

Yn amodol ar ddewis rhieni, byddai'r holl bobl ifanc sy'n mynychu'r ysgolion a enwir yn y cynnig yn trosglwyddo i'r Ysgol Gatholig 3-16 newydd.

Bydd adran gynradd yr ysgol ar gyfer 525, felly cofnod o 2.5 dosbarth gyda nifer derbyn o 75. Bydd adran uwchradd yr ysgol ar gyfer 600 felly mynediad 4 dosbarth gyda rhif derbyn o 120.

Mae'n bwysig nodi y bydd unrhyw benderfyniad i fynd ymlaen â'r cynnig yn benderfyniad ar y cyd rhwng Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful ac Archesgobaeth Caerdydd.

Caniateir i Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful gyhoeddi cynigion i roi'r gorau i ysgol wirfoddol neu ysgol sefydledig a gynorthwyr; fel y mae'r Llywodraethwyr. Fel y cyfryw, gall y Cyngor gyhoeddi yn ffurfiol y broses o gau'r pedwar ysgol bresennol yn dilyn y weithdrefn statudol gywir.

Bydd y cynnig i sefydlu ysgol wirfoddol a gynorthwyr yn cael ei chyhoeddi gan Archesgobaeth Gatholig Caerdydd mewn partneriaeth â Chyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful. Er y gallai Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful geisio sefydlu ysgol wirfoddol a

gynorthwyir yn wirfoddol, ystyrir ei fod yn briodol bod darpariaeth o'r fath wedi'i chynllunio mewn partneriaeth â'r awdurdod Esgobaethol a fydd yn gyfrifol am weithrediad yr ysgol. Byddai rôl y Cyngor wrth sefydlu'r ysgol wirfoddol a gynorthwyir yn gynghorol / cefnogol. Felly bydd y cynnig yn ymwneud â ffurfio'r ysgol 3-16 newydd yn cael ei chyhoeddi gan yr Archesgobaeth mewn partneriaeth â Chyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful.

DALGYLCH

Mae dalgylch yr ysgol newydd arfaethedig yn cwmpasu holl Fwrdeistref Sirol Merthyr Tudful. Yn ogystal, mae'r ddarpariaeth uwchradd o fewn yr ysgol yn cwmpasu Plwyfi Aberdâr, Hirwaun, Glyn-nedd, Rhymni, Tredegar, Glynebwy a Brynmawr.

YSGOLION SY'N GWASANAETHU'R ARDAL AR HYN O BRYD

Darpariaeth Feithrin

- Darperir addysg feithrin gan yr ysgolion cynradd ar draws y Fwrdeistref Sirol, gan gynnwys y 3 ysgol gynradd yn y cynnig hwn
-

Darpariaeth Gynradd

- Darperir addysg gynradd cyfrwng Saesneg ar draws y Fwrdeistref Sirol, gan gynnwys y 3 ysgol gynradd sydd wedi'u cynnwys yn y cynnig hwn
- Darperir addysg gynradd cyfrwng Cymraeg gan Ysgol Santes Tudful ac Ysgol Rhyd y Grug

Darpariaeth Uwchradd

- Mae yna 3 ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg yn y Fwrdeistref Sirol yn ogystal â'r ysgol uwchradd a gynhwysir yn y cynnig hwn
- Mae addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg ar gael yn Ysgol Gymraeg Rhyd y Waun

GWYBODAETH AM YR YSGOLION

Y galw presennol am leoedd

GWYBODAETH YSGOL GYFFREDINOL						
Ysgol	Math o ysgol	Categori iaith	Rhif derbyn	Capasiti'r ysgol	Nifer ar y gofrestr 2017/18	Ystod oedran
YGG Sant Aloysius	Cymorth Gwirfoddol	Cyfrwng Saesneg	23 (2017/18)	165 (2017/18)	174	3-11
